

Amgueddfa Gatrodol y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

Penodi Cyfarwyddwr Datblygu

Gwanwyn 2022

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd, dydd Gwener 13 Mai 2022

Cefndir

Sefydlwyd Amgueddfa Gatrodol y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig i ddechrau yn y Ganolfan Gatrodol, Wrecsam. Yn dilyn cau'r ganolfan honno yn 1960, penderfynwyd symud yr amgueddfa gyfan i Dŵr y Frenhines yng Nghastell Caernarfon ar ôl derbyn gwahoddiad gan y Weinyddiaeth Adeiladau Cyhoeddus a Gwaith fel yr oedd pryd hynny. Mae'r amgueddfa wedi aros yma, er bod arddangosfeydd a chesys arddangos y 1960au bellach wedi'u disodli gan arddangosiadau modern, a gafodd eu hagor ym mis Gorffennaf 1999, diolch i gefnogaeth Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Mae'r amgueddfa'n rhan o'r Gatrawd ac mae'n cynnal cysylltiad â Changen Treftadaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn drwy Bencadlys Catrodol y Cymry Brenhinol, sef olynwyr y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Disgwylir y bydd cyllid y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dod i ben, ond nid cyn 2030. Mae'r amgueddfa wedi creu cysylltiadau â sefydliadau eraill hefyd, yn fwyaf arbennig Cadw, sydd bellach yn gofalu am Gastell Caernarfon ac yn ei reoli, yn ogystal â chysylltiadau â Gwasanaeth Amgueddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Gwasanaethau Amgueddfeydd Wrecsam yn rheoli Casgliad ac Archif wrth gefn y RWF yn eu safle yn Wrecsam. Mae Cadw ac Amgueddfa Wrecsam yn gysylltiadau allweddol o ran cynnal Amgueddfa Gatrodol hyfyw.

Caiff yr Amgueddfa Gatrodol ei rheoli gan ymddiriedolaeth elusennol ac mae'r ymddiriedolwyr nawr yn dymuno penodi Cyfarwyddwr Datblygu newydd. Yn ogystal â chyfres o dargedau datblygu uchelgeisiol, bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am reoli staff Swyddog Gwasanaethau Ymwelwyr, Swyddog Addysg rhan amser, staff cynorthwyol, a gwirfoddolwyr. Byddwn yn penodi yn unol â'r gweithdrefnau a nodwyd gan Bwyllgor Rheoli'r Amgueddfa Gatrodol. Caiff y swydd ei chynnig fel un barhaol llawn amser, yn amodol ar gyfnod prawf 6 mis.

Y cyflog a gynigir ar gyfer y swydd hon yw £35,000 y flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth am yr amgueddfa ar gael ar wefan yr amgueddfa <http://www.rwfmuseum.org.uk/> neu drwy anfon at y cyfeiriad e-bost isod.

Anfonwch geisiadau a gohebiaeth drwy e-bost gyda chyfeirnod 'Cyfrinachol - Cyfarwyddwr Datblygu RWF' at y Capten E D Williams DCM (DES.WILLIAMS721@mod.gov.uk) erbyn y dyddiad cau.

Rhif Ffôn: 01978 316188 i gael rhagor o wybodaeth.

A wnewch chi lunio eich cais drwy ddefnyddio MS Word neu PDF yn unig.

Disgrifiad Swydd

MEYSYDD CANLYNIADAU ALLWEDDOL

Polisi a Datblygu Strategol

1. Gweithio gyda'r Pwyllgor Rheoli, adolygu polisïau, llunio strategaethau a gweithredu gweithdrefnau sy'n sicrhau datblygiad parhaus Amgueddfa'r RWF yng Nghastell Caernarfon fel cyfleuster o ansawdd uchel i ymwelwyr, gan gyfeirio at gynyddu'r incwm a gynhychir.
2. Darparu rheolaeth a gweinyddiaeth lefel uchel ar gyfer Amgueddfa'r RWF yng Nghastell Caernarfon, drwy'r Rheolwr Cyfleusterau, a chynnal perthynas waith weithredol ac effeithiol gyda Cadw ac Amgueddfa Wrecsam, gan annog datblygu prosiectau a digwyddiadau ar y cyd.
3. O dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Rheoli, cynllunio, datblygu, monitro ac adolygu'r gwaith o farchnata'r amgueddfa, ar y cyd â Cadw a chyrff eraill, yn ôl yr angen.
4. Ymgymryd â dyletswyddau o'r fath a allai fod yn angenrheidiol i gynnal cysylltiad cadarn â'r gymuned leol, drwy drefnu darlithoedd, sgysiaau a datblygu rhwydwaith gwirfoddolwyr *ymysg pethau eraill*.
5. Cefnogi'r gwaith o greu a datblygu sefydliad 'Cyfeillion Amgueddfa'r RWF' yn barhaus drwy ddiwyddiadau yn yr amgueddfa ac mewn mannau eraill, a chyfraniadau at gylchlythyrau, ac ati.
6. Parhau i gydymffurfio â gofynion sefydliadau partner yng Nghaernarfon, Wrecsam neu rywle arall a'r fframwaith cyfreithiol a chyfansoddiadol y mae Amgueddfa'r RWF yn gweithio oddi mewn iddo.
7. Datblygu cydweithrediad agos er budd y naill a'r llall gydag amgueddfeydd milwrol eraill yng ngrŵp Cymru a Gorllewin Lloegr, Amgueddfeydd Catrodau cysylltiedig, amgueddfeydd Gogledd Cymru ac amgueddfeydd milwrol cenedlaethol amrywiol.

Rheoli Staff

8. Sicrhau bod amodau rheoli a chyflogaeth staff, gan gynnwys iechyd a diogelwch, yn cael eu cynnal ar lefel briodol.
9. Recriwtio, hyfforddi ac annog staff cyflogedig a gwirfoddol a meithrin tîm llawn cymhelliant ar gyfer pob agwedd o ddyletswyddau gwaith yr amgueddfa.
10. Cynnal rhaglen hyfforddi gadarn ar gyfer yr holl staff cyflogedig a gwirfoddol, gan annog dulliau newydd ac arloesol o weithio, a sicrhau safonau uchel o ran darparu gwasanaethau.

Rheolaeth Ariannol

11. Darparu adroddiadau rheoli ariannol i Bwyllgor Rheoli a Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth, gan gysylltu â chyfrifwyr cwmnïau, archwilwyr a sefydliadau partner i sicrhau systemau rheoli ariannol effeithlon ac effeithiol.
12. Rheoli systemau gweinyddu ariannol yr amgueddfa, gan ddirprwyo gweithdrefnau arian parod a thaliadau o ddydd i ddydd, gan barhau i gynnal rôl fonitro ddigonol.

Cynhyrchu Incwm

13. Mynd ati i chwilio am ffrydiau incwm newydd a'u rheoli, gan gynnwys cyllid grantiau, i gynorthwyo gyda meysydd gweithredu a datblygu'r amgueddfa, fel y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Rheoli.
14. Gan weithio gyda 'hyrwyddwyr' ymddiriedolwyr penodol, byddwch yn llunio ystod newydd o gynlluniau cynhyrchu incwm arloesol a/neu ddatblygu nwyddau safon uchel sy'n addas i'w gwerthu ar y safle ac ar-lein.

Rheolaeth Guradurol

15. Darparu cyfeiriad curadurol, drwy ymgynghori â'r cyrff priodol, gan sicrhau ansawdd y ddarpariaeth rheoli casgliadau a glynu wrth ofynion y Cynllun Achredu ar gyfer Amgueddfeydd yn y DU, a safonau proffesiynol eraill .
16. Cysylltu â swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o ran benthycia'r casgliadau wrth gefn yn barhaus, gan drefnu yn ôl yr angen i drosglwyddo casgliadau benthyciadau i Gaernarfon a chasgliadau arddangos i Wrecsam yn unol â'r cytundeb.
17. Datblygu proffil digidol yr amgueddfa, gan ddirprwyo cynnyrch digidol o ddydd i ddydd i aelodau'r tîm yn ôl yr angen, tra'n cadw rheolaeth olygyddol i sicrhau dull cydlynol.

Addysg Ysgolion, Dysgu Gydol Oes, arddangosfeydd a digwyddiadau

18. Datblygu, rheoli a chynnal, drwy ddirprwyo'n briodol yn ôl yr angen, wasanaethau addysgol o fewn cylch gwaith ysgolion a dysgu gydol oes Amgueddfa'r RWF, a datblygu cynlluniau ar y cyd sy'n ymwneud â defnydd cyhoeddus o'r Castell ei hun, drwy ymgynghori â Cadw, gan chwilio am gyllid i gynnal gwasanaethau o'r fath.
19. Hyrwyddo safonau uchel o gyflwyno casgliadau ac eiddo arall Amgueddfa'r RWF i'r cyhoedd, yn unol â strategaeth y cytunwyd arni, drwy nodi, cynllunio a monitro gwaith a thrwy gysylltu â chontractwyr mewnol ac allanol a chyrrff allanol eraill, gan gynnwys trefnwyr digwyddiadau ac arddangosfeydd arbennig.
20. Sefydlu a chynnal rhaglen amrywiol o arddangosfeydd a digwyddiadau dros dro yn unol â strategaethau y cytunwyd arnynt gan Amgueddfa'r RWF a thrwy ymgynghori â Cadw a phartneriaid eraill, chwilio am gyllid i gynnal gwasanaethau o'r fath.
21. Ymgymryd â thasgau eraill sy'n briodol i'r swydd a lefel ei chyfrifoldeb fel sy'n ofynnol o bryd i'w gilydd gan y Pwyllgor Rheoli.

Yn atebol i: Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli, Ymddiriedolwyr

Yn gyfrifol am: Staff proffesiynol, goruchwylio, gwasanaethu, clerigol a gwirfoddol, sy'n ffurfio'r tîm staff Amgueddfa'r RWF

Cyllideb: trosiant blynyddol yw tua £150,000. Mae cyfrifon blynyddol ar gael ar gais.

Nodweddion, Gwybodaeth a Phrofiad Personol

Rydym eisiau cyfarwyddwr tra brwdfrydig sy'n canolbwyntio ar nodau. Dylai ymgeiswyr fod yn unigolion treftadaeth cymwysedig proffesiynol, gyda phrofiad o weithio yn y sector amgueddfeydd / treftadaeth, gyda sgiliau y gellir eu profi mewn trefnu, cyfathrebu, gyda nodweddion personol rhagorol o ran egni, brwdfrydedd, ymrwymiad, ymarferoldeb a hyblygrwydd.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn barod i ddod o hyd i strategaethau i greu ffrydiau incwm ychwanegol sy'n angenrheidiol i sicrhau hyfywedd ariannol yr amgueddfa. a'u llywio.

Nid oes angen arbenigedd pwnc er y byddwn yn disgwyl i'r deiliad allu delio â'r ystod o gasgliadau sydd yn yr Amgueddfa Gatrodol, gan gynnwys eitemau milwrol, celfyddyd gain ac addurniadol, dodrefn a deunyddiau hanes cymdeithasol. Rhaid i ddeiliad y swydd allu hyrwyddo gwaith yr amgueddfa i ystod wahanol o ddefnyddwyr, gan ddefnyddio dulliau ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r Amgueddfa Gatrodol yn falch o'i thraddodiad a'i diwylliant Cymreig ac felly mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg, neu barodrwydd i wneud hynny, yn ddymunol.

Prif Amodau Cyflogaeth

Mae deiliad y swydd yn bennaf atebol i Bwyllgor Rheoli Amgueddfa'r RWF drwy ei Gadeirydd.

Cynigir y swydd ar y cyflog a nodwyd am wythnos 40 awr. Ni thelir goramser ond bydd cynllun amser i ffwrdd yn lle hynny yn berthnasol ar gyfer yr oriau ychwanegol a weithir yn hwy na'r isafswm wythnosol. Bydd costau teithio a chynhaliaeth y cytunwyd arnynt yn cael eu had-dalu am yr holl deithio angenrheidiol a fyddai fel arfer yn cael ei gytuno arno ymlaen llaw gyda Phwyllgor Rheoli Amgueddfa'r RWF neu Gadeirydd y pwyllgor.

Mae cyfnod prawf 6 mis yn gysylltiedig â'r swydd hon.

Bydd hawl gwyliau blynyddol ar ôl unrhyw gyfnod prawf yn 20 diwrnod, ynghyd ag 8 Gŵyl Banc arall. Bydd yr hawl i wyliau blynyddol yn cynyddu i 25 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth.

Lleolir y swydd yn Amgueddfa'r RWF yng Nghaernarfon. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd dreulio tua hanner yr wythnos waith yn yr amgueddfa ond gellir trefnu dull hyblyg o weithio gartref, drwy gytundeb. O fewn y cytundeb o ran gweithio hyblyg, efallai y bydd angen gweithio rhywfaint ar benwythnosau a gyda'r nos. Rhaid i ddeiliad y swydd gadarnhau parodrwydd i ddefnyddio car ei hun ar gyfer busnes yr amgueddfa.

Mae cynllun pensiwn gweithle wedi'i sefydlu ac mae rhagor o fanylion ar gael ar gais.

Bydd deiliaid swyddi sy'n dymuno symud i ardal Caernarfon yn cael cynnig costau symud hyd at uchafswm a drafodwyd. Bydd rhaid ad-dalu'r costau symud y cytunwyd arnynt os bydd deiliad y swydd yn gadael o fewn 2 flynedd i'r penodiad.

Manyleb yr Unigolyn

Byddwn yn defnyddio hyn yn y broses asesu

	Hanfodol	Dymunol
Cymhwyster	Addysg hyd lefel gradd neu gyfwerth mewn pwnc perthnasol	Gradd ôl-raddedig a/neu gymhwyster proffesiynol mewn curaduriaeth, rheoli arddangosfeydd, neu reoli datblygu treftadaeth
Profiad	O leiaf 3 blynedd o brofiad mewn sefydliad treftadaeth sy'n wynebu'r cyhoedd, yn enwedig o ran datblygu strategaethau a chyfluoedd, rheoli staff, a rheoli cyllidebau.	Gweithio mewn nifer o amgueddfeydd / orielau gwahanol neu sefydliadau cysylltiedig, gan gynnwys creu strategaethau arloesol ar gyfer creu amgueddfa ffyniannus. Profiad o ystod eang o faterion rheoli casgliadau mewn amgueddfa.
Arbenigedd Pwnc		Hanes Milwrol, Celfyddyd Gain a Chymhwysol, Hanes Cymdeithasol, neu bwnc cysylltiedig
Curadurol	Deall natur a'r defnydd o gasgliadau hanesyddol a chelfyddydol mewn amgueddfeydd / orielau a gwybod am faterion dehongli a gofynion cynulleidfa gyffredinol gymysg.	Deall materion gofalu am gasgliadau sy'n ymwneud â'r casgliadau yn yr Amgueddfa Gatrodol a'r rhai sy'n dod o gyrff benthyca.
Addysgol	Deall arwyddocâd casgliadau mewn addysg gyhoeddus a'r gallu i hyrwyddo arddangosfeydd a rhaglenni o'r fath i gynulleidfa eang	Profiad o sefydlu a chynnal strategaethau addysg a mynediad iddynt
Rheoli	Deall gweinyddiaeth ariannol a phrosesau grantiau. Paratoi a chyflwyno adroddiadau pwyllgor a chynghori bwrdd neu bwyllgor. Rheoli Personél.	Sgiliau profedig wrth greu tîm deinamig mewn amgueddfa neu amgylchedd treftadaeth. Hanes o ddatblygu prosiect amgueddfa/oriel yn llwyddiannus.
Nodweddion Personol	Dawn, brwdfrydedd, ymroddiad i egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus da, a deall pwrpas amgueddfa yn glir. Parodrwydd i weithio gydag unigolion a sefydliadau amrywiol. Sgiliau cyfathrebu rhagorol. Rhinweddau arwain cadarn.	
Gallu	Gallu llunio polisiau a chwblhau adroddiadau a briffiau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau'r disgrifiad swydd. Trwydded yrru lawn.	

Gofynion y Gymraeg

(gweler Tabl Asesu Sgiliau Cymraeg Amgueddfa'r RWF ynghlwm)

Mae'n **hanfodol** bod deiliad y swydd hon yn cyflawni Lefel 1 (Llafar ac Ysgrifenedig) o fewn blwyddyn gyntaf y penodiad. (Gweler y Tabl Asesu Sgiliau am enghreifftiau ond mae'r gofyniad hwn yn sylfaenol iawn ac yn hawdd ei gyflawni.)

Mae'n **ddymunol** ond nid yw'n hanfodol bod ymgeiswyr yn dangos hyfedredd lefel uwch yn y Gymraeg mewn cyfathrebu ysgrifenedig ac ar lafar.

Darperir cymorth i ddeiliad y swydd gyflawni lefel uwch o hyfedredd yn y Gymraeg petai angen hynny.